Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Miranda Mills**

**Llanelli**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also avaliable in English**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

19/11/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ôl-gofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu ac maent wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'i gilydd. Mae'r plant yn llawn bywyd ac yn frwdfrydig yn eu chwarae ac yn cael hwyl. Maent yn profi cyfleoedd diddorol ac addas sy'n cefnogi a datblygu eu dysgu.

Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu ffordd o fyw iach ac yn cadw'r plant yn ddiogel. Mae hi'n ofalgar, caredig ac yn llawn cymhelliant a brwdfrydig. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithiadau'n gyson ac yn ddigynnwrf, gan arwain trwy esiampl. Mae hi'n cynllunio ac yn hyrwyddo datblygiad y plant yn dda, gan deilwra themâu i hyrwyddo llesiant y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod briodol o deganau, adnoddau ac offer i hyrwyddo dysgu. Mae'r amgylchedd yn lân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn darparu amgylchedd croesawgar. Fodd bynnag, mae angen diweddaru asesiad risg y lleoliad er mwyn adlewyrchu'r trefniadau cyfredol yn y tŷ.

Mae'r gwarchodwr plant yn arweinydd effeithiol ac mae hi'n dilyn rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol yn ôl y gofyn.  Mae ganddi ystod o bolisïau a chofnodion ar waith, ac mae hi'n drefnus. Mae hi'n adolygu ei gwasanaeth yn flynyddol ac yn sicrhau ei bod yn bodloni ei hamodau cofrestru. Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni ac mae'n rhoi'r wybodaeth gyfredol addas iddynt. Mae'r rhieni'n ganmoliaethus iawn am ei gwasanaeth.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac mae ganddynt rai cyfleoedd i wneud dewisiadau. Er enghraifft, pan oedd un plentyn yn deffro o'i gwsg, roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn dilyn eu harwyddion dieiriau cyn mynd ag ef i chwarae.

Mae'r plant yn fodlon ac yn mynegi mwynhad; maent yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac wedi'u gwerthfawrogi. Mae'r plant yn gofyn yn hyderus i newid gweithgareddau, y mae'r gwarchodwr plant yn ei ddilyn ac mae'r plant yn sgwrsio ac yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd ac maent yn siarad am yr hyn y maent yn ei wneud. Mae'r plant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad gan wenu, curo dwylo'n gyffrous neu ymuno â gweithgareddau'n frwdfrydig. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn ffurfio cydberthnasau, ac maent yn gyfarwydd â threfniadau arferol. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn ymolchi ei ddwylo ar ôl mynd i'r toiled heb anogaeth

Mae rhyngweithiadau rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn dda yn gyson. Maent yn gwrando ar ei chyfarwyddiadau ac yn ateb y cwestiynau y mae'n eu gofyn. Er enghraifft, wrth adrodd stori, gwnaeth y plant bwyntio at y lluniau a siarad am yr hyn a oedd yn digwydd. Mae'r plant yn dechrau dangos empathi ac yn dod yn sensitif i anghenion eraill. Mae'r plant yn rhannu teganau ac adnoddau y rhan fwyaf o'r amser, ac yn cael eu canmol yn rheolaidd am eu hymddygiad da.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn cymryd rhan yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd diddorol. Maent yn canolbwyntio am gyfnod sy'n briodol i'w hoedran ac mae'r gwarchodwr plant yn adeiladu ar ddiddordebau'r plant. Er enghraifft, yn ystod amser cinio, roedd gan un plentyn ddiddordeb yn yr hyn a oedd yn digwydd y tu allan y dilynodd y gwarchodwr plant wedyn.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan arwain at deimlad da o gyflawni rhywbeth a hunan-barch uchel. Maent yn awyddus i ddangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud. Roedd un plentyn yn siarad yn fodlon am eu hoffer adeiladu a sut y byddai'n eu defnyddio. Mae'r plant yn profi cyfleoedd diddorol sy'n briodol i'w hoedran/cam datblygu sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyflawn. Mae gan y plant ystod o gyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Er enghraifft, yn ystod amser cinio, maent yn cael eu hannog i fwydo eu hunain neu i sychu eu dwylo.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo iechyd a diogelwch. Mae hi'n atgoffa'r plant yn rheolaidd am gadw'n ddiogel ac yn cynnwys trafodaethau diogelwch yn y gweithgareddau chwarae. Er enghraifft, pan oedd un o'r plant yn chwarae gyda'r teganau adeiladu, gwnaethant esbonio pam eu bod yn gwisgo gogls. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo hylendid da, gan ddilyn ei gweithdrefn newid cewynnau ac yn annog golchi dwylo'n rheolaidd. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad; pan oeddent yn yr ystafell ymolchi, defnyddiodd y plant dywel a rennir i sychu eu dwylo. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant wedi cadarnhau bod tyweli unigol ar gael i'w defnyddio yn yr ystafell ymolchi. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig bwyd a diodydd iach ac yn cadw golwg yn rheolaidd ar blant sy'n cysgu. Mae ganddi ymwybyddiaeth gyffredinol o weithdrefnau diogelu ac atebodd yn hyderus am yr hyn y byddai'n ei wneud pe bai senario amddiffyn plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithiadau'n dda. Mae hi'n ymateb yn gyson i'w hanghenion a'u dymuniadau ac mae'n gwrando ar farn y plant a'u cyfathrebu dieiriau. Mae'r holl ryngweithiadau yn gadarnhaol ac yn arddangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant. Er enghraifft, roedd yn defnyddio llais tawel, ysgafn gyda'r plentyn a oedd newydd ddeffro. Mae'r gwarchodwr plant yn atgoffa'r plant yn rheolaidd am ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, pan oedd un plentyn eisiau tegan plentyn eraill, gwnaeth y gwarchodwr plant eu hatgoffa mai "*rhannu yw gofalu"* a dangosodd iddynt sut i ofyn am y tegan.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod eang o gyfleoedd chwarae a dysgu priodol ac felly mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo datblygiad plant yn dda. Mae cynllunio wythnosol yn cynnwys ystod o weithgareddau diddorol ac amrywiol a phriodol sy'n datblygu sgiliau ar draws meysydd y Cyfnod Sylfaen. Mae hi'n dilyn dull thematig ac yn addasu ei gwaith cynllunio ar adegau er mwyn ei wneud yn bersonol i'r plant. Er enghraifft, roedd tystiolaeth o gynllunio unigryw yn ystod wythnos pen-blwydd y plentyn ieuengaf. Mae'r gwarchodwr plant yn gofyn cwestiynau'n gyson; gan ddefnyddio cwestiynau agored a chaeedig syml, ac yn trafod chwarae'r plant. Er enghraifft, wrth adeiladu tŷ, gwnaeth y gwarchodwr plant ofyn pa bethau y byddent yn eu gweld yn y tŷ. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddatblygiad unigol plant gan ddefnyddio taflenni cynnydd unigryw sy'n dangos y cerrig milltir a gyflawnir. Mae'n cofnodi'r rhain yn briodol er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer y camau nesaf.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau'n llwyddiannus bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn sicr, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn dan do ac yn yr awyr agored. Mae'n cwblhau rhestr wirio diogelwch cyffredinol bob dydd. Mae ganddi rai asesiadau risg ar waith. Er enghraifft, mae asesiad risg tân ac mae asesiad risg ar gyfer defnyddio trafnidiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant wedi diweddaru neu adolygu asesiad risg cyffredinol y lleoliad. Mae'n cynnal ymarferion tân rheolaidd fel bod y plant yn gwybod beth i'w wneud pe byddai tân ac mae'n cynnal rhaglen reolaidd o waith cynnal a chadw i'r adeilad.

Mae gan yr amgylchedd ofod chwarae dan do da er mwyn i blant symud yn rhydd. Rhoddodd y gwarchodwr plant dystiolaeth ffotograffig o ymweliadau lleol yn yr awyr agored y mae wedi'u cynnal gyda'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu offer sy'n briodol i oedran a cham datblygu'r plant. Er enghraifft, amser cinio, gallai'r plant eistedd wrth y bwrdd a chadeiriau lefel isel ac roedd y plant iau yn defnyddio cadeiriau uchel. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant drwy'r cyntedd i ddefnyddio'r toiled ac mae ganddi nifer o giatiau diogelwch yn eu lle i sicrhau y gall plant ond cyrchu ardaloedd priodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y gall y plant gael mynediad at amrywiaeth foddhaol o ddodrefn, teganau ac offer dan do sy'n briodol o ran oedran ac o ansawdd da. Er enghraifft, teganau byd bach, deunyddiau crefft, teganau rhyngweithiol a llyfrau. Mae rhai o'r adnoddau'n cael eu storio mewn bocsys agored ar lefel isel tra bod rhai yn cael eu storio mewn bocsys ffabrig ar silffoedd. Mae'r deciau cyfansawdd a'r ardd yn galluogi'r plant i gael mynediad rheolaidd at yr ardal yn yr awyr agored ac mae ystod o adnoddau awyr agored o ansawdd da gan gynnwys ffrâm ddringo, tŷ chwarae, siglen a blwch tywod.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn arddangos sgiliau arwain cadarnhaol yn y dogfennau a'r cofnodion sydd ar gael ar gyfer ei gwasanaeth. Mae'n cynnal a rhannu datganiad o ddiben effeithiol a chyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r cofnodion gofynnol yn ddiogel ac yn cynnwys gwybodaeth benodol am anghenion, hoffterau a chasbethau'r plant ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol arall. Mae'n cofnodi damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth a roddir i'r plant, gan rannu'r wybodaeth â rhieni. Fodd bynnag, nid oedd cofnod rhoi un feddyginiaeth yn cynnwys llofnod y rhiant. Roedd set gynhwysfawr o bolisïau ar waith sy'n dangos dealltwriaeth o arferion gorau cyfredol, gyda pholisïau'n cael eu rhannu â rhieni. Fodd bynnag, nid oedd yn dyddio'r dogfennau at ddibenion adolygu. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant wedi cadarnhau ei bod yn adolygu'r polisïau bob blwyddyn ac yn cadw cofnod electronig o'r dyddiad adolygu. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'n cefnogi rhieni yn yr iaith a ffefrir ganddynt.

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ansawdd y gofal yn flynyddol. Mae'n gofyn i rieni am eu hadborth trwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd ac yn defnyddio'r adborth o ryngweithiadau'r plant bob dydd. Mae'n cynhyrchu adroddiad sylfaenol ar ansawdd y gofal, sy'n pwysleisio'r hyn y mae wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf yn ei gwasanaeth, gan gynnwys lle mae wedi gwneud gwelliannau a hefyd cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei hamser yn briodol ac yn blaenoriaethu gweithgareddau yn ôl anghenion. Er enghraifft, roedd hyfforddiant craidd megis cymorth cyntaf a hylendid bwyd yn gyfredol. Mae ganddi dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd iddi hi ei hun ac aelod eraill o'r teulu. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu, nid oedd wedi hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru bod aelod o'r cartref wedi troi'n 16 oed. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau'r hysbysiad i ddangos pob aelod o'r cartref sydd dros 16 oed sy'n byw yn yr eiddo. Roedd cofnodion presenoldeb yn dangos bod y gwarchodwr plant yn gweithredu o fewn ei hamodau cofrestru gan beidio â gofalu am fwy na phump o blant ar unrhyw adeg ac roedd y cofnodion yn adlewyrchu pryd y gwnaeth y plant fynychu'r gwasanaeth yn gywir.

Mae’r gwarchodwr plant yn rhoi’r wybodaeth gyfredol i rieni am lesiant a chynnydd eu plentyn trwy adborth ar lafar a gwasanaeth negeseua. Er enghraifft, mae hi'n anfon lluniau'n rheolaidd gan ddefnyddio ‘WhatsApp’ i ddangos yr hyn y mae'r plant wedi bod yn ei wneud yn ystod yr wythnos ac mae hi'n defnyddio ei thudalen ar y cyfryngau cymdeithasol i rannu gweithgareddau. Nododd y rhieni bod y gwarchodwr plant yn rhoi gwybodaeth gyfredol iddynt, gan rannu polisïau a gwybodaeth arall â nhw ac maent yn teimlo bod y gwarchodwr plant yn cynnig gwasanaeth cartrefol.

## Argymhellion i fodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Diweddaru'r asesiad risg o'r safle a sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol neu pan fydd unrhyw newidiadau i'r eiddo neu i anghenion y plant.

A2 Sicrhau bod rhieni'n llofnodi'r cofnod rhoi meddyginiaeth i gydnabod cofnodi'r holl feddyginiaethau a roddwyd i'r plant.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymroddedig i welliannau parhaus, ac sydd â nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesi blaenllaw o fewn y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella lles plant. |
| **Da** | Mae'r rhain yn wasanaethau sydd â llawer o gryfderau, a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 18/02/2022